# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Ieuan Rees

### Cynorthwy-ydd Gweinyddol Prosiectau Arbennig – Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Helo, fy enw i yw Ieuan Rees a fi yw'r Cynorthwy-ydd Gweinyddol Prosiectau Arbennig gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sydd wedi'i leoli yn WLGA, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yng Nghaerdydd.

Rwy' wedi bod yn ffodus iawn i weld y gwaith a wnaed eleni gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol o ddau safbwynt gwahanol, yn gyntaf fel aelod o'r tîm ond hefyd fel person awtistig. Ers ymuno â'r tîm ym mis Chwefror y llynedd drwy'r prosiect Engage to Change, rwy' wedi bod yn gysylltiedig â nifer o brosiectau a gweithgareddau ymgysylltu sydd wedi helpu i sicrhau bod ein hadnoddau'n ateb anghenion y gymuned awtistig.

Gwnes i fynychu llawer o grwpiau ffocws gyda'r nod o gasglu adborth er mwyn llywio fersiwn diwygiedig o'r 'Canllaw i Rieni a Gofalwyr yn dilyn Diagnosis'. Yn ogystal â bod yn llwyfannau effeithiol i rieni a gofalwyr plant awtistig leisio'u barn am y canllaw presennol, roedd y grwpiau ffocws hyn hefyd yn ddadlennol o ran adnabod y meysydd nad oeddent yn cael sylw.

Roedd yn werthfawr i fi a'r tîm glywed am brofiadau unigol amrywiol pob un a fynychodd a chymryd y rhain i ystyriaeth wrth ddiweddaru'r canllaw a'i droi'n adnodd llawer mwy hygyrch a defnyddiol.

Gwnes i hefyd weithio gyda'r tîm i gynhyrchu arolwg ar-lein i gasglu adborth ac ymatebion i wefan ASDinfoWales. Rhoddodd hyn gyfle i bobl awtistig, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ddweud eu dweud a mynegi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y wefan.

Wedyn, roeddwn i'n gallu cyflwyno'r hyn oedd wedi'i gasglu mewn adroddiad adborth a ddarparodd amlinelliad clir o deimladau defnyddwyr am beth dylid ei wella ar y wefan bresennol, a dyna oedd sail datblygu'r wefan newydd a mwy cyfoes.

Yn olaf, roeddwn i'n ddigon ffodus i gynhyrchu ffilm ochr yn ochr â Swyddog Ymchwil a Gwella'r tîm, Holly Roberts, yn ogystal â Gerraint Jones-Griffiths o fudiad Pobl yn Gyntaf Cymru. Gweithiodd hyn fel astudiaeth achos ddigidol o'r enw 'Dod i Adnabod Gerraint' a roddodd gipolwg i'w brofiad fel person awtistig, ei gyflawniadau a'i gynnydd wrth symud drwy ei fywyd gwaith.

Er i hyn ymddangos yn y lle cyntaf yn brosiect eitha' heriol, y canlyniad yn y pen draw oedd ffilm a oedd yn ymdrin â stori go iawn roedd modd uniaethu â hi ac a darodd dant gyda phobl awtistig. Rhoddodd gydnabyddiaeth i'r anawsterau yn ogystal â'r agweddau cadarnhaol sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth.

Ymhlith y prosiectau hyn mae'r tîm wedi'u cynnal eleni, mae sawl achlysur wedi bod lle rwy' wedi cael cyfle i bwyso a mesur a chydnabod, o'm safbwynt personol fy hun, pa mor fuddiol y bydd y gwaith yma i'r gymuned awtistig ehangach. Mae'n bleser cael bod yn rhan o dîm mor ymroddedig a charedig ac rwy'n gyffrous iawn i gael parhau â'r gwaith yma.